



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: SCHTh 13-2018

Cais:

Mae'n ymddangos fel pe bai llawer iawn o amser wedi mynd heibio ers i'r Comisiynydd addo uwchraddio teledu cylch cyfyng yn ardal Heddlu Dyfed-Powys ac adeiladu dalfa yn Nafen, Llanelli. Wrth edrych trwy'r cyhoeddiadau amrywiol sydd ar gael i'r cyhoedd, ymddengys bod y cynnydd yn araf iawn, ac nid yw SCHTh byth yn rhoi diweddariadau. Hefyd, gwnaed cais blaenorol i gael gwybod beth sy'n digwydd i orsaf heddlu Cydweli (sydd bellach yn wag ac mae gordyfiant ar y safle).

Eglurhad:

PRYD FYDD Y SYSTEM HON YN WEITHREDOL? DYWEDWYD WRTHYM Y BYDDAI'N WEITHREDOL YN GYNNAR YN 2018. ERBYN HYN, MAE'N GANOL 2018 A DOES DAL DIM DYDDIAD AR GYFER Y DDARPARIAETH.

Ymateb:

Medraf gadarnhau nad oes gwybodaeth yn cael ei dal gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SHTh) gan nad yw'r dyddiad y bydd y system yn weithredol yn cael ei ddal gan SCHTh. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth hon.

Yn ogystal â hyn, ac fel arwydd o ewyllys da, gall SCHTh gynghori'r canlynol, a allai fod yn rhywfaint o gymorth –

“Mae'r prosiect TCC wedi cyrraedd y pwynt lle mae'r prif gontractwr wedi'i benodi, a bydd yn cyflawni'r gwaith mewn 17 tref. Y dref gyntaf fydd Llanfair-ym-Muallt, a bydd y gwaith wedi'i gwblhau cyn y Sioe Frenhinol. Yna, bydd gwaith yn cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin, y Drenewydd, Llanelli ac ati.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau'n parhau â'r cham ymchwilio cyn adeiladu'r prosiect, ac yn cadarnhau y gallai'r safle ddarparu ar gyfer ein hanghenion yn y dyfodol o safbwynt ecolegol a geodechnegol. Mae cysylltiad rheolaidd ac agos â'r perchennog tir yn parhau wrth i ni baratoi i ymgynghori â'r cyhoedd mewn perthynas â'r lleoliad a'r adeilad cyn cynllunio. Disgwylir y bydd y broses o ymgynghori â'r cyhoedd yn cael ei chydlynu ym mis Medi.

Mae gorsaf Cydweli wedi'i defnyddio gan staff heddlu fel cyfleuster blaenweithredu o Borth Tywyn. Rydyn ni wedi bod yn trafod defnyddio lleoliad amgen yng Nghydweli gyda chynrychiolwyr allweddol a sefydliadau eraill. Rhoddir cyhoeddiad ynghylch y lleoliad hirdymor cyn hir.”

Hefyd, gweler yr hyperddolen isod mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, a allai fod yn rhywfaint o gymorth –

<https://www.dyfed-powys.police.uk/cy/mynediad-at-wybodaeth/teledu-cylch-cyfyng-yn-heddlu-dyfed-powys/>